# SUL Y MAMAU

Pan oeddwn i'n blentyn doedd dathlu Sul y Mamau ddim yn rhywbeth cyffredin. Roedd eglwyswyr yn ei gadw ond ychydig o sylw oedden ni, gapelwyr, yn ei gymryd ohono. Erbyn heddiw mae wedi tyfu yn rhywbeth masnachol iawn. Roedd gan fy nghenedlaeth i rywun i ofalu amdanom hefyd - mam, tad, nain, mamgu, taid, tadcu, gofalwr, athro neu athrawes, ac ati. Erbyn hyn rydw i'n meddwl ein bod ni, gapelwyr, wedi colli cyfle i ddangos ein diolch i'n mamau.

## PRYDAIN

Mae'r arferiad o ddathlu Sul y Fam ym Mhrydain yn mynd yn ôl i draddodiad o'r unfed ganrif ar bymtheg pan fyddai pobl yn mynd yn ôl i ymweld â'u 'mam eglwys' (yr eglwys roedden nhw'n mynd iddi gyda'u teuluoedd pan oedden nhw'n blant) ar Sul neilltuol bob blwyddyn. Oherwydd nad oedd pobl yn symud i fyw ymhell iawn o'u hardal enedigol yn y dyddiau hynny, mae'n ddigon posib y byddai pobl yn gallu mynd yn ôl i'w hen eglwys i addoli. Ac yn naturiol, fe fydden nhw'n addoli gyda'u mamau a fyddai wedi arfer mynd i'r eglwys honno ar hyd y blynyddoedd. Gyda'r blynyddoedd fe ddaeth yn arferiad i brentisiaid a gweision ffermydd, morwynion a merched fyddai'n gweini, gael diwrnod yn rhydd i fynd adref i ymweld â'u mamau a'u teuluoedd dros y Sul arbennig hwn. Y pedwerydd Sul yn y Garawys oedd y diwrnod. Dyma ddydd, cyn gwyliau'r Pasg, i deuluoedd ddod ynghŷd a threulio peth amser gyda'i gilydd. Dros amser, fe ddaeth yr Eglwys i gydnabod y Sul hwn fel Sul arbennig a'i alw'n Sul y Fam. Hefyd, roedd yn gyfle i bobl yr Eglwys gofio am Mair, mam Iesu Grist.

## ISRAEL

Yn Israel caiff Sul y Mamau ei ddathlu rhwng Ionawr 30 a Mawrth 1.Yn ystod yr Ail Ryfel Byd sefydlodd Henrietta Szold fudiad a achubodd lawer o blant Iddewig o'r Almaen Natsïaidd. Doedd ganddi ddim plant ei hun ac ar ôl y rhyfel fe gyhoeddwyd y byddai Sul y Fam yn cael ei ddathlu ar ddiwrnod ei phenblwydd.

## TSIEINA

Sefydlwyd yr arfer am y tro cyntaf yn 1997, er mwyn atgoffa'r bobl am y mamau tlawd a oedd yn byw yn ardaloedd gwledig Tsieina. Bydd pobl Tsieina yn defnyddio'r diwrnod hwn hefyd i annog pobl i ddangos parch tuag at yr henoed yn eu gwlad. Mae'r dyddiad yn amrywio.

## YR AIFFT

Roedd Mustafa Amin yn newyddiadurwr enwog yng ngwlad yr Aifft ac fe sefydlodd nifer o bapurau newydd yn yr iaith Arabeg. Yn 1956, mewn colofn yn un o'i bapurau newydd, fe gyflwynodd y syniad o gael diwrnod arbennig i famau. Fe ddaeth y syniad yn un poblogaidd, ac wedi dechrau'r arfer yn yr Aifft fe ddaeth yn boblogaidd wedyn mewn sawl gwlad Arabaidd arall. Ar Fawrth 21 y bydd yn cael ei gynnal.

## AWSTRALIA

Yn y flwyddyn 1924, fe ddechreuodd gwraig o'r enw Janet Heyden ymweld â chartref arbennig a sefydlwyd ar gyfer mamau unig yr oedd eu teuluoedd wedi anghofio amdanyn nhw. Gofynnodd i ysgolion a busnesau lleol gyflwyno rhoddion i'r gwragedd hyn er mwyn eu llonni. Dros amser, fe ddechreuodd pobl eraill wneud yr un peth, ac yn y pen draw fe ddatblygodd y syniad o Sul y Fam neu Ddiwrnod y Merched ledled y wlad. Bydd yn cael ei ddathlu ar yr 2il Sul ym mis Mai.

